# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion o gyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 17eg Mehefin 2013 yn Siambr Cyngor Sir Ddinbych, Rhuthun. Dechreuodd y cyfarfod am 10.45 y bore.

**PRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P H Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P Penlington | Cyngor Sir Ddinbych |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro'r Awdurdod)); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon, R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Aelodau newydd i'r cyfarfod, sef y Cyng. P Penlington (Sir Ddinbych), y Cyng. L W Davies a'r Cyng. J M Evans (Ynys Môn).

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Mewn perthynas ag eitem 20 ar yr agenda – prosiect Wrecsam – dywedodd y Clerc fod aelodau CBS Wrecsam eisoes wedi derbyn cyngor cynhwysfawr am y mater. Dywedodd eto y gall pob Aelod aros drwy gydol yr holl drafodaeth, ar yr amod nad oes trafodaeth fanwl am drosglwyddo tir.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MAWRTH 2012

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2013 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 3.1 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu – gofynnodd y Cyng. A Jones am ddiweddariad ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Esboniodd y Prif Swyddog Tân mai cyfarfod cyflwyniadol ydoedd, i rannu gwybodaeth am y gwahanol bartneriaethau sydd rhwng yr heddlu a'r GTA. Cytunwyd y byddai'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cyfarfod ddwywaith y flwydydn gyda'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân.

3.2 15 a 18 – Y Broses o benodi PSTC – cylchredwyd hysbyseb ar gyfer y swydd, a dywedodd y PST mai siomedig oedd safon yr ymgeiswyr allanol. Felly, roedd y PST wedi ysgrifennu at bob Aelod i nodi beth oedd y cynlluniau ar gyfer swydd PSTC, sef penodi R Fairhead am gyfnod dros dro tan fis Tachwedd 2013, pryd y caiff y swydd ei hadolygu eto.

4 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

4.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. A M Jones a'r Cyng. M Ll Davies iddynt rhwng Mawrth a Mehefin 2013 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

4.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

5 PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASU

5.1 Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo protocol ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasu mewn cyfarfodydd. Roedd aelodau'r Panel Gweithredol wedi ystyried y protocol drafft, ac wedi argymell bod yr Awdurdod yn ei fabwysiadu.

5.2 Roedd y Cyng. A Jones yn cefnogi'r cynnig, a theimlai'r Cyng. P Shotton y byddai'r Awdurdod, drwy dderbyn y protocol, yn symud gyda'r oes, ond roedd yn bwysig nad oedd defnyddio cyfryngau cymdeithasu yn mynd â sylw'r Aelodau tra'r oedd dadl yn mynd ymlaen. Cadarnhawyd nad oedd cyfeiriad at y mater hwn yn y protocol. Hefyd, rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod y protocol yn caniatáu i swyddogion drydar a monitro cyfryngau cymdeithasu yn ystod cyfarfodydd, ac mai'r Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol fydd yn ymgymryd â'r rôl honno.

5.3 **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r protocol cyfryngau cymdeithasu ar ddarlledu o gyfarfodydd.**

6 PERFFORMIAD ARIANNOL 2012-2013

6.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2012-13. Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod, nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau o bwys ac nid oeddent wedi canfod unrhyw risgiau o bwys; roeddent yn argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad.

6.2 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Trysorydd mai 2012-13 oedd ail flwyddyn y strategaeth tair blynedd y cytunodd yr Awdurdod arni i leihau'r gyllideb. Y targed ar gyfer arbedion 2012-13 oedd £815k, ac fel y bwriadwyd, roedd y rhan fwyaf o'r rheini wedi dod o ganlyniad i newid system gylchrestru'r diffoddwyr tân (£500k) a'i gael drwy gyfraddau ymadael naturiol, ymddeoliadau'n bennaf. Bu'r strategaeth yn llwyddiannus, a chyrhaeddwyd y targedau ar gyfer yr arbedion, ynghyd ag arbedion ychwanegol o ganlyniad i reoli'r gyllideb yn ofalus a bod yn ymwybodol y bydd angen rhagor o arbedion yn y dyfodol.

6.3 Tynnodd y Trysorydd sylw'r Aelodau at gronfeydd a darpariaethau'r Awdurdod. Nodwyd mai balans y gronfa gyffredinol fydd £1,609k, a hynny o ganlyniad i drosglwyddo balans y tanwariant a'r cronfeydd a glustnodwyd ac a neilltuwyd y llynedd ac nad oes mo'u hangen mwyach. Nodwyd y byddai'r ffigwr hwn, er ei fod yn ymddangos yn uchel, yn sicrhau bod arian ar gael i gynorthwyo mewn blynyddoedd i ddod, ac y bydd yr Awdurdod yn gallu defnyddio'r arian hwn yn hytrach na gorfod gofyn am gyfraniadau atodol gan yr awdurdodau cyfansoddol. Holodd y Cyng. J M Evans, fel aelod newydd, am y gwahanol faterion a oedd yn yr adroddiad, gan gynnwys y tanwariant; atebodd y Prif Swyddog Tân y cwestiynau ac egluro ambell bwynt. Nodwyd y byddai sesiwn gynefino yn cael ei threfnu ar gyfer yr aelodau newydd i egluro'r materion yn fanylach.

6.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariannau i'r Cronfeydd a'r Darpariaethau fel y nodir isod:**

| | |
|---|---|
| Cyfraniad i'r Ddarpariaeth Ffioedd (Wrecsam) | £880,400 |
| Cyfraniad Refeniw i Gyfalaf (Glannau Dyfrdwy) | £120,000 |
| Cyfraniad i Ddarpariaeth (Pensiynau'r System RDS) | £300,000 |
| Cyfraniad i Gronfeydd a Glustnodwyd | £216,000 |
| Cyfraniad i'r Gronfa Gyffredinol | £ 32,789 |

7 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS 2012-2013

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad sy'n un o ofynion blynyddol gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn nodi gweithgarwch y trysorlys a gwir ddangosyddion darbodus 2012-2013, a hynny'n unol â gofynion y Cod Darbodus.

7.2 Roedd yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol, sy'n cyfyngu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i weithgarwch rheoli'r trysorlys. Roedd y Cyng. Skelland, fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, wedi cadarnhau bod y Pwyllgor wedi derbyn cyflwyniad manwl ar yr adroddiad yn y cyfarfod diwethaf ac wedi argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad. Talodd y Trysorydd deyrnged i Sandra Forrest am ei holl waith yn monitro'r holl faterion sy'n ymwneud â rheoli'r trysorlys.

7.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo gwir Ddangosyddion Darbodus 2012-2013.**

8 Y PRIF BWYNTIAU YNGLŶN Â PHERFFORMIAD ANARCHWILIEDIG AMCANOL 2012-13

8.1 Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol gyflwyniad ar ffigurau perfformiad anarchwiliedig amcanol 2012-13. Dyma gyfle cynnar i'r Aelodau weld perfformiad yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a nodwyd yr adroddir ynghylch yr wybodaeth yn ffurfiol drwy'r Asesiad o Berfformiad a gyhoeddir erbyn 31 Hydref 2013.

8.2 Nodwyd y bu gostyngiad yng nghyfanswm niferoedd y tanau yng Nghymru dros y ddeng mlynedd diwethaf. Roedd tanau simnai yn llai cyffredin nag o'r blaen, gyda llai na dau yr wythnos. Roedd nifer y tanau eiladd (rhai bychain, y tu allan, heb anafusion na gorfod achub) yn tueddu i godi a gostwng, gyda mwy yn digwydd mewn blynyddoedd sych. Fodd bynnag, o ran y prif danau (tanau eiddo, tanau mawr y tu allan neu unrhyw rai pryd yr oedd anafusion neu pryd y bu'n rhaid achub), roedd cyfradd glir o welliant dros amser, a hwnnw i'w briodoli'n rhannol i'r agenda atal tanau a chanolbwyntio ar ostwng nifer y tanau mewn anheddau a thanau bwriadol.

8.3 Roedd nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol yng Nghymru wedi aros yn gyson, tua 19 o farwolaethau o'r fath neu 0.63 am bob 100,000 o bobl bob blwyddyn. Fodd bynnag, roedd nifer yr anafiadau oherwydd tanau damweiniol bob blwyddyn wedi mwy na haneru yn y blynyddoedd diweddar, gan ddisgyn o 411 yn 2004/05 i 202 yn 2011/12, ac mae hyn eto'n adlewyrchu'r pwyslais a roddir ar atal tanau sef y prif beth y mae gwaith y GTA yn canolbwyntio arno.

8.4 O ran Gogledd Cymru, ac yn benodol o ran y perfformiad o'i gymharu â'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, bu gwelliant yn 2012/13 mewn perthynas â phob un heblaw un elfen (marwolaethau oherwydd tanau bwriadol mewn anheddau) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

8.5 Yn arbennig, bu 26% o ostyngiad yn nifer y tanau o'i gymharu â 2011/12, ac mae hyn yn barhad o'r tueddiad tymor hir am i lawr. At hynny, roedd darlun cadarnhaol o welliant yn nifer y tanau yr aethpwyd atynt mewn eiddo annomestig, roedd hynny wedi gostwng 41% ers 2007/8. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi y bu rhywfaint o or-adrodd am danau yn y categori hwn yn y pedair blynedd flaenorol, a hynny oherwydd camddehongli diffiniad y Dangosyddion, ond bod y tueddiad gwaelodol am i lawr yr un fath. Hefyd, bu gostyngiad mawr yn nifer y tanau bwriadol o'i gymharu â 2011/12 – gan gynnwys 42% o ostyngiad yn nifer y tanau eilaidd bwriadol a 22% o ostyngiad yn nifer y prif danau bwriadol.

8.6 O ran Cynllun yr Awdurdod ar gyfer Gwella, gofynnwyd i'r aelodau nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Amcan cyntaf ar gyfer Gwella, sef cadw pobl a chymunedau yn ddiogel rhag marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau. Bu rhywfaint o godi a gostwng yn nifer yr anafiadau a'r marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau, ac er bod y mwyafrif helaeth o'r anafiadau'n cael eu categoreiddio fel rhai 'bychain', roeddent er hynny'n ddigon pwysig i gadarnhau ei bod yn bwysig parhau i roi pwyslais mawr ar atal tanau.

8.7 Parhau i ostwng wnaeth nifer y tanau mewn anheddau lle nad oedd yna larwm mwg, ac roedd hynny'n dystiolaeth eto o ba mor effeithiol yw'r strategaeth atal tanau, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd.

8.8 Roedd cyfradd yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd yng Nghymru wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2010/11, ac wedi gostwng wedi hynny. Fodd bynnag, roedd yr 22,210 o archwiliadau a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru yn 2012/13 yn cyfateb i 60 o archwiliadau y dydd, gyda chyfran uchel ohonynt yn cael ei gwneud yng nghartrefi pobl fregus, a hynny o ganlyniad i atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner inni. Roedd y gynulleidfa y llwyddwyd i'w chyrraedd wedi aros yr un fath yn 2012/13 ag yn y flwyddyn flaenorol, sef 125 o bobl y dydd yn cael gwybodaeth am ddiogelwch tân yn y cartref gan staff wedi eu hyfforddi. Roedd hyn yn ogystal â'r 525 o ymweliadau ag ysgolion yn ystod y flwyddyn, a chyfanswm o 25 o ddigwyddiadau cyhoeddusrwydd a sgyrsiau am ddiogelwch tân.

8.9 Dywedodd y Cyng. McGuill mai da oedd clywed bod cymaint o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn cael eu cynnal bob dydd. Gofynnodd y Cyng. McGuill a oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael gwybod am bob achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn cynnwys tystiolaeth o losgi bwriadol ac yr aeth yr heddlu atynt. Cadarnhawyd bod y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn cynnwys Siarsiant Heddlu, ac felly roedd perthynas waith agos wedi datblygu rhwng yr heddlu a'r Gwasanaeth.

8.10 I ateb cwestiwn ynglŷn â gweithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid inni, cadarnhawyd bod asiantaethau partneriaethol sy'n gweithio gydag aelodau mwy bregus o'r gymuned yn gallu rhannu gwybodaeth gyda'r Gwasnaeth er mwyn gallu cynnal archwiliad diogelwch tân yn eu cartrefi. Mae hyn yn dangos ac yn pwysleisio mor bwysig yw gweithio mewn partneriaeth ac mor bwysig yw'r protocolau rhannu gwybodaeth sydd yn eu lle.

8.11 Ailddatganodd yr Aelodau eu cefnogaeth i'r gwaith ataliol a chodi ymwybyddiaeth, a theimlent fod y gwaith hwn yn rhan hanfodol o ddyletswyddau'r Gwasanaeth a'r Awdurdod.

8.12 **PENDERFYNWYD nodi'r cyflwyniad a'r wybodaeth a ddarparwyd.**

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cyng. Paul Penlington y cyfarfod.

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL AM DDYLEDION DRWG A DDILEWYD

9.1 Ar gais yr Awdurdod, mae'r Trysorydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol erbyn 30ain Mehefin ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol i nodi'r holl ddyledion a ddilewyd ac i ddatgan y rhesymau dros eu dileu.

9.2 **PENDERFYNWYD nodi bod dwy ddyled ddrwg wedi eu dileu rhwng 1af Ebrill 2012 a 31ain Mawrth 2013, ac mai eu cyfanswm oedd £1,118.59.**

10 CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL – POLISI DISGRESIYNAU

10.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y gofyniad i'r Awdurdod lunio Datganiad Polisi Disgresiynau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

10.2 Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r penderfyniadau a wnaed ar gyfer pob rheoliad yn Natganiad Polisi Disgresiynau'r CPLlL; sefydlwyd y rhain er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu arian cyhoeddus a defnyddio disgresiwn mewn perthynas â rhesymau tosturiol yn seiliedig ar synnwyr busnes da. Hefyd, gofynnwyd i'r Aelodau gytuno i ddirprwyo, i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd ar ran yr Awdurdod, benderfyniadau o ddydd i ddydd am y disgresiynau i'w defnyddio.

10.3 Nodwyd ei bod yn ofynnol i bob awdurdod cyflogi, o dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth leol (Rheoliadau Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau 2008), ffurfio, cyhoeddi ac adolygu datganiad polisi ynglŷn ag arfer nifer o ddisgresiynau o dan y CPLlL. Roedd pob maes disgresiwn sy'n gofyn am benderfyniad ffufiol wedi eu cynnwys yn y Datganiad Polisi a oedd yn gymwys i aelodau'r cynllun a gyflogir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

10.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob penderfyniad ynghylch disgresiwn sydd yn Natganiad Polisi Disgresiynau'r CPLlL, a dirprwyo penderfyniadau o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd.**

11 CWYNION A LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD

11.1 Cyflwynodd y PSTC Claydon yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth gan y cyhoedd rhwng 1af Ebrill 2012 a 31ain Mawrth 2013.

11.2 Nodwyd bod 123 o lythyrau, cardiau, negeseuon e-bost, Twitter a Facebook wedi dod i law yn ystod y flwyddyn yn mynegi gwerthfawrogiad a bodlonrwydd gyda'r Gwasanaeth. Roedd yr ohebiaeth gwerthfawrogol yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau, ond roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â'r llifogydd yn Llanelwy a Rhuthun, ac wedi dod drwy Twitter a Facebook.

11.3 Bu 29% o ostyngiad yn nifer y cwynion a ddaeth i law, ac 16% o ostyngiad yn nifer y cwynion a gadarnhawyd. Hefyd, dywedodd y PSTC Claydon fod y Gwasanaeth wedi gwneud 12,641 o deithiau 'Goleuadau Glas' at ddigwyddiadau'r ochr weithredol rhwng 1af Ebrill 2012 a Mawrth 31ain 2013, ac na ddaeth unrhyw gŵyn am yrru yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

11.4 **PENDERFYNWYD nodi nifer y cwynion a'r datganiadau o werthfawrogiad a ddaeth i law.**

12 "PROSIECT GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU 2013" LLYWODRAETH CYMRU

12.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am fodolaeth "Prosiect Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru 2013", ac yn ceisio cael yr Awdurdod i gefnogi bod swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cymryd rhan yn y gweithgorau cysylltiedig.

12.2 Roedd llythyr wedi ei anfon at y tri Phrif Swyddog Tân yng Nghymru i roi gwybod iddynt am y prosiect a fyddai'n ceisio coladu a dadansoddi gwybodaeth am waith y gwasanaethau. Roedd tri cham i'r prosiect. Byddai'r ddau gam gyntaf yn cynnwys rhanddeiliaid, ond adroddiad i'r Gweinidogion oedd y trydydd cam, ac nid oedd yn cynnwys rhanddeiliaid. Nid oedd yn eglur eto sut y byddai'r prosiect, nac yn wir a fyddai'r prosiect, yn ymblethu ac yn cysylltu â'r gwaith a wneir gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd y Cyng. A Jones fod y prosiect yn swnio'n debyg i waith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, ac roedd yr Aelodau'n bryderus y byddai angen i'r swyddogion ddyblygu gwaith. Caiff yr Aelodau ragor o wybodaeth wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

12.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad, a chefnogi bod swyddogion y Gwasanaeth ac adnoddau eraill yn cymryd rhan ym "Mhrosiect Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru 2013".**

13 Y PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL

13.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân ddiweddariad i'r Aelodau am y gwaith a wneir o dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol. Roedd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor wedi ei gynnal ym mis Mawrth 2013.

13.2 Bu nifer o lwyddiannau eisoes, yn enwedig mewn perthynas â chydweithio a gwahanol weithdrefnau o fewn gwaith yr Ystafell Reoli a ffrwd gwaith caffael. Yn ddiweddar, roedd contract cyfraith cyflogaeth ar gyfer Cymru gyfan wedi ei ganiatáu rhwng y tri gwasanaeth tân ac achub, ac roedd hyn wedi arwain at ostyngiad mewn costau.

13.3 Nodwyd bod yr arbedion effeithlonrwydd hyd yn hyn yn £2.6 miliwn drwy'r tri gwasanaeth dros gyfnod o bum mlynedd, a bod y ffigwr hwn yn ychwanegol at yr arbedion a sicrhawyd gan bob un o'r tri ATA drwy eu prosesau unigol o osod cyllidebau. Roedd y PMC wedi cytuno i fabwysiadu fframwaith ar gyfer cynaliadwyedd, a byddai hyn yn dod yn egwyddor drefniadol ganolog ymhob un o ffrydiau gwaith y PMC; rhagwelid y byddai hyn yn cynorthwyo i sicrhau lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hir pob GTA yng Nghymru.

13.4 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y PMC yn gweithio'n dda, a'i fod yn dangos bod cydweithio rhagorol yn digwydd rhwng y tri awdurdod tân ac achub.

13.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

14 BWRDD RHANBARTHOL CYMUNEDAU DIOGELACH

14.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn argymell bod yr Awdurdod yn cefnogi'r Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Diogelach i ddatblygu Cynllun Diogelwch Cymunedol rhanbarthol.

14.2 Yn y cyfarfod o'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelwch Cymunedol ar 7fed Mehefin 2013, cytunwyd ar gynigion cychwynnol i gael Cynllun Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gogledd Cymru, ac roedd y Bwrdd yn argymell i'r awdurdodau a'r asiantaethau sy'n bartneriaid iddo fod Gogledd Cymru yn cyflwyno ac yn mabwysiadu Cynllun Diogelwch Cymunedol rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru.

14.3 **PENDERFYNWYD cefnogi a mabwysiadu Cynllun Diogelwch Cymunedol Rhanbarthol.**

15 CARCHAR YNG NGOGLEDD CYMRU

15.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gadarnhau cefnogaeth yr Awdurdod i ymrwymiad y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol i leoli carchar yn y Gogledd. Bu'r Panel Gweithredol yn ystyried y mater yn ei gyfarfod, ac argymhellodd bod yr Awdurdod yn cefnogi'r cynnig.

15.2 Roedd y Cyng. P Shotton yn cefnogi'r cynnig, ac yn teimlo ei bod yn bwysig i Ogledd Cymru gael ei garchar ei hun am resymau economaidd, yn ogystal ag i alluogi teuluoedd i ymweld â'u hanwyliaid yn rheolaidd mewn lleoliad nes at adref.

15.3 **PENDERFYNWYD cadarnhau cefnogaeth yr Awdurdod i ymrwymiad y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol i leoli carchar yng Ngogledd Cymru.**

16 COFNODION ER GWYBODAETH

16.1 Cafodd cofnodion cyfarfod diwethaf y Panel Gweithredol, a gynhaliwyd ar 13eg Mai, er gwybodaeth.

16.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth er gwybodaeth.**

RHAN II – Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod ar adeg ystyried yr eitem fusnes (eitemau busnes) canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gofynnwyd i'r Prif Swyddogion, Pennaeth Cyfleusterau, Swyddog Cyswllt yr Aelodau a'r Cyfieithydd i aros.

17 GORSAF DÂN AC AMBIWLANS AR Y CYD – WRECSAM

17.1 Roedd yr Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn awyddus i ddatgan buddiant personol er bod y Clerc wedi eu cyngori nad oedd angen datgan buddiant personol na rhagfarnol oni bai fod trafodaeth am drosglwyddo tir. Fodd bynnag, roedd Aelodau CBS Wrecsam yn teimlo eu bod yn cynrychioli pobl Wrecsam, ac felly fe wnaethant ddatgan buddiant personol.

17.2 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â sefyllfa bresennol yr orsaf dân ac ambiwlans ar y cyd yn Wrecsam. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am yr adolygiad "archwiliad iechyd" o'r prosiect gan ymgynghorydd annibynnol ac am gyfarfod a gynhaliwyd gyda Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth. Hefyd, darparwyd gwybodaeth am y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda swyddogion Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC).

17.3 Yn dilyn y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod ym mis Mawrth, bu nifer o ddatblygiadau. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwrthod cynnal yr adolygiad, felly roedd archwilydd allanol, gyda phrofiad o gynnal adolygiadau tebyg, wedi ei benodi, ac roedd wedi llunio adroddiad mewn cyfnod byr. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Gweinidog Llywodraeth leol a Busnes y Llywodraeth a'r Gweinidog Iechyd, a chafwyd cyfarwyddiadau clir ynglŷn â'r modd yr oeddent yn dymuno gweld y prosiect yn symud yn ei flaen. Hefyd, cafodd yr Aelodau ddiweddariad ar y materion llifogydd, costau a fforddiadwyedd.

17.4 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau, a bu'r swyddogion yn egluro'r gwahanol faterion cyn i'r Cyng. A Jones gynnig bod tri o'r pedwar argymhelliad yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Roedd y Cyng. A Jones o'r farn mai'r holl Aelodau ddylai benderfynu ar y ffordd ymlaen, ac na ddylid dirprwyo hyn i'r Panel Gweithredol; roedd Aelodau eraill yn cefnogi'r farn hon.

17.5 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi ymateb y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn y cyfarfod ar 24 Mai 2013;**

**(ii) cefnogi argymhellion yr "archwiliad iechyd" a gynhaliwyd gan JDH Business Services Ltd;**

**(iii) cydnabod na all y prosiect ar y cyd, ni waeth beth fo'r ymateb y gallai'r Gweinidog ei roi a/na gwaith pellach a gynigiwyd gan JDH, symud i sefyllfa foddhaol heb ddatrys y materion sy'n ymwneud â lliniaru llifogydd y cyfeirir atynt ym mharagraff 12 o'r adroddiad;**

**(iv) galw cyfarfod brys o'r Awdurdod os oes unrhyw faterion o bwys, ond y gellir dirprwyo'r awdurdod i ymdrin â materion costau a manylebau i'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân, y Clerc a'r Trysorydd.**

Ar yr adeg hon, roedd yn rhaid i lawer o'r Aelodau adael y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill. Cafodd pob swyddog ei eithrio, ac eithrio'r rhai a nodir isod. Felly, yn bresennol i drafod yr adroddiad diwethaf roedd:

Y Cynghorwyr: M Ll Davies; P Lewis; J G Evans; J M Evans; H McGuill; D J Miles; W R Owen; R Parry; P Pemberton; R Skelland; A Tansley; W O Thomas.

Hefyd yn bresennol: Y Clerc, y Trysoryrdd, Swyddog Cyswllt yr Aelodau a B Jones (Cyfieithydd).

18 YR ADOLYGIAD O UWCH GYFLOGAU

18.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn cyflwyno canlyniadau'r adolygiad annibynnol o uwch gyflogau yn y gwasanaeth tân ac achub ar gyfer yr uwch swyddi dynodedig.

18.2 O dan gytundeb gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Rheolwyr Brigadau Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol, caiff codiad cyflog ei negodi bob blwyddyn i adlewyrchu chwyddiant. Argymhellir hefyd bod pob awdurdod yn cynnal adolygiad o'r uwch gyflogau yn rheolaidd. Diben yr adolygiad yw sicrhau bod uwch gyflogau (1) yn gydradd â chyflogau mewn Awdurdodau Tân ac Achub tebyg (2) yn gystadleuol a (3) yn adlewyrchu cymhlethdod y swydd. Mae'n arfer dda mewn cyflogaeth i gynnal lefelau cyflogau drwy gymharu ac adolygu'n rheolaidd.

18.3 Cafodd Total Reward Projects Ltd, sef aseswyr allanol, eu comisiynu i gynnal yr adolygiad gan mai nhw a wnaeth y gwaith yn 2006 a 2009. Cyfarfu Panel yr Awdurdod ar Gydnabyddiaeth Ariannol ddwywaith i drafod canlyniadau'r adolygiad, a darparwyd cofnodion y ddau gyfarfod i'r Aelodau.

18.4 Bu'r Aelodau'n trafod yr adroddiad a'r argymhellion, a rhoddodd y Clerc a'r Trysorydd gyngor fel yr oedd angen.

18.5 **PENDERFYNWYD cefnogi'r argymhellion a wnaed gan y Panel ar Gydnabyddiaeth Ariannol.**